HSC(6)-02-22 PTN 13

General
Medical
Council

Wales office
2 Caspian Point
Caspian Way
Cardiff CF10 4DQ

Email: gmcwales@gmc-uk.org
Telephone: 029 2049 4948

gmc-uk.org

28 July 2022
Russell George MS
Gweinidog yr Wrthblaid dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cadeirydd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd
Drwy e-bost yn unig: [redacted]
CC: [redacted]

Annwyl Russell,

**Adroddiad y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) i Senedd Cymru**

Mae'n bleser gennyf rannu copi o'n Hadroddiad Cenedlaethol CMC Cymru i Senedd Cymru gyda chi. Rydym wedi cyflwyno hwn i Senedd Cymru heddiw, 28 Gorffennaf 2022. Mae copïau hefyd wedi'u rhannu â llefarwyr iechyd eraill y pleidiau gwleidyddol, aelodau o Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd, Ymchwil y Senedd a swyddogion Llywodraeth Cymru.

**Pam rydym yn rhannu'r adroddiad**

Rydym yn rhannu'r adroddiad hwn cyn yr hyn y disgwyliwn fydd yn ddyletswydd statudol i'r GMC yn y dyfodol fel rhan o ddiwygio ein rheoliadau yn ehangach. Gobeithiwn fod yr adroddiad yn rhoi mwy o fewnwelediad i Swyddogion ac Aelodau'r Senedd (AS) o'r gwaith a wnawn. Mae'n dangos sut y gwnaethom ymgysylltu â'n partneriaid ar draws y system gofal iechyd yn ystod 2021 ar flaenoriaethau ar y cyd i wella'r gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol ehangach, ein cefnogaeth barhaus i'r gweithlu meddygol yn ystod yr ymateb pandemig, a'n gwaith gyda meddygon, cyflogwyr ac addysgwyr i amddiffyn a hybu diogelwch cleifion yng Nghymru.

**Gwybodaeth bellach**

Byddai ein tîm yng Nghymru yn croesawu cyfarfod â chi i ddarparu mwy o wybodaeth am ein gwaith a throsolwg o'r data cynhwysfawr a chraff a ddarparwn am y proffesiwn meddygol a'r sefydliadau lle mae meddygon yn ymarfer ac yn hyfforddi.

I drefnu cyfarfod anfonwch e-bost atom yn: [redacted]

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â mi yn: [redacted]

Yr eiddoch yn gywir,

**Sara Moseley, Pennaeth CMC Cymru**

The GMC is a charity registered in
England and Wales (1089278)
and Scotland (SC037750).